
Cynlluniwyd y deunyddiau hyn gan athrawon er mwyn helpu i gyflwyno Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau. Mae CBAC yn eu cefnogi, ond nid CBAC sydd wedi eu llunio. Os hoffech rannu eich adnoddau, anfonwch e-bost i HSCandCC@wjec.co.uk.

Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Diploma yn unig)

Uned 5: Cefnogi unigolion sydd mewn perygl i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael

Dolenni defnyddiol:

5.1: Ffactorau a allai gyfrannu at berygl y caiff unigolion eu cam-drin a'u hesgeuluso:

1. Diffiniadau o gysyniadau allweddol (rhestr termau)

Adolygu!

Gallai'r dysgwyr **lunio rhestr termau** o gysyniadau pwysig sy'n gysylltiedig â ffactorau a allai gyfrannu at berygl y caiff unigolion eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Mae rhai o'r *cysyniadau allweddol* y gall dysgwyr eu hystyried yn cynnwys y canlynol:

Plant sy'n wynebu risg – [gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrwl-5-ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-plant-syn-wynebu-risg.pdf](#) (llyw.cymru) (Tudalen 4).

[Taflen-Plentyn-syn-wynebu-risg-pecyn-Diogelu-f.3.pdf](#) (gofalcymdeithasol.cymru)

Oedolyn sy'n wynebu risg – [cyfrwl-6-ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-oedolion-syn-wynebu-risg.pdf](#) (llyw.cymru) (Tudalen 5).

[Taflen-Oedolyn-syn-wynebu-risg-pecyn-Diogelu-f.3.pdf](#) (gofalcymdeithasol.cymru)

Mathau o gam-drin – (Plant) - [Types of abuse | NSPCC](#)

Mathau o gam-drin – (Oedolion) - [Abuse and neglect of vulnerable adults \(safeguarding\) – GIG \(www.nhs.uk\)](#)

Gofal Cymdeithasol Cymru – **Cam-drin emosiynol/seicolegol** Taflen: [Taflen-cam-drin-emosiynol-seicolegol-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-f3.pdf](#) (gofalcymdeithasol.cymru)

Cam-drin corfforol – [Taflen-cam-drin-corfforol-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-f3.pdf](#) (gofalcymdeithasol.cymru)

Cam-drin ariannol – [Taflen-cam-drin-ariannol-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-f3.pdf](#) (gofalcymdeithasol.cymru)

[Cam-drin rhywiol – Taflen-cam-drin-rhywiol-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf \(gofalcymdeithasol.cymru\)](#)

[Esgeuluso \(Plant\) - Neglect | NSPCC](#)

[Esgeuluso \(Oedolion\) - Abuse and neglect of vulnerable adults \(safeguarding\) – GIG \(www.nhs.uk\)](#)

[Children and families at risk of abuse or neglect | NSPCC Learning](#)

[Taflen-esgeulustod-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-f3.pdf \(gofalcymdeithasol.cymru\)](#)

[Trais ar sail anrhydedd - Honour based violence – A Female Issue \(wales.nhs.uk\)](#)

[Anffurfio organau cenedlu benywod – y cyswllt â chrefydd, diwylliant a'r safle yn y teulu - Female genital mutilation \(FGM\) - GIG \(www.nhs.uk\)](#)

[Gwneud Bwch Dihangol - The Psychology of Scapegoating | Psychology Today](#)

**AWGRYMIADAU
ARHOLIAD**

** Mae'n bosibl y bydd angen i ddysgwyr wybod pam y gallai gwneud bwch dihangol arwain at sefyllfa lle y bydd unigolyn yn wynebu mwy o risg o gael eu cam-drin/esgeuluso – felly mae'n bwysig sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o ystyr y term 'gwneud bwch dihangol'. Ni fydd dim ond gwybod ystyr y term gwneud bwch dihangol yn ddigon i'r dysgwyr gyflawni'r marciau uchaf.*

[ACES - Yn Ymwybodol o ACE — ACE Aware Wales](#)

**AWGRYMIADAU
ARHOLIAD**

** Mae'n bosibl y bydd angen i ddysgwyr wybod pam y gall unigolion sydd wedi profi ACES yn y gorffennol hefyd ddod yn dreisgar. Ni fydd dim ond gwybod ystyr ACES yn ddigon i'r dysgwyr gyflawni'r marciau uchaf.*

[Namu gwybyddol - Mild cognitive impairment | Map Ffordd Dementia Cymru](#)

**AWGRYMIADAU
ARHOLIAD**

** Mae'n bosibl y bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol pam y gall unigolion sy'n byw â namau gwybyddol wynebu mwy o risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Ni fydd dim ond gwybod ystyr y term nam gwybyddol yn ddigon i'r dysgwyr gyflawni'r marciau uchaf.*

[Cyfeiriadedd rhywiol - Sexuality and sexual orientation | NSPCC](#)

**AWGRYMIADAU
ARHOLIAD**

** Mae'n bosibl y bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol pam y gall unigolion sy'n disgrifio eu hunain fel unigolion hoyw, cyfunrhywiol, heterorywiol, deurywiol, anrhywiol neu ansicr wynebu mwy o risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Ni fydd dim ond gwybod ystyr y term cyfeiriadedd rhywiol yn ddigon i'r dysgwyr gyflawni'r marciau uchaf.*

[Gofal seibiant - Respite Care for carers - Taking a break from care | Age UK](#)

**AWGRYMIADAU
ARHOLIAD**

** Mae'n bosibl y bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol pam y gall diffyg gofal seibiant arwain at sefyllfa lle y bydd yr unigolion y maen nhw'n gofalu amdanyn nhw yn wynebu mwy o risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Ni fydd dim ond gwybod ystyr y term gofal seibiant yn ddigon i'r dysgwyr gyflawni'r marciau uchaf.*

Gwerslyfrau defnyddiol

Rasheed, E, Hetherington ac Irvine, (2010) *Health and Social Care – ISBN 978-1-444-11552-9 - Tudalennau 236-244 (2 bennod pennod 1, sy'n canolbwyntio ar fathau a dangosyddion cam-drin a phennod 2, sy'n canolbwyntio ar ddeall ffactorau a all arwain at sefyllfaoedd camdriniol).*

2. Crynodeb 5 munud o Winterbourne View /diagram corr yn ar Winterbourne View.

[Crynodeb fideo 5 munud o 'Safeguarding Winterbourne View' - angen y sain yn llawn - YouTube](#)

Gallai'r dysgwyr hefyd ymchwilio i'r rhaglenni dogfen llawn am Winterbourne View neu unrhyw enghreifftiau perthnasol eraill yn y cyfryngau lle mae unigolion wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Gallai hyn wedyn arwain at drafodaeth ddosbarth o dan arweiniad y tiwtor ar ffactorau a gyfrannodd at risg y caiff unigolion eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Adolygu!

Gallai'r dysgwyr gwblhau diagram corr yn ag unigolyn o Winterbourne a gafodd ei gam-drin a'i esgeuluso. Byddai'r diagram corr yn cynnwys yr unigolyn yn y canol ac yn disgrifio pa fath o gam-drin/esgeuluso a brofodd a beth a gyfrannodd at greu sefyllfa lle roedd yr unigolyn hwnnw yn wynebu mwy o risg o gael ei gam-drin/esgeuluso.

3. Siaradwr gwadd/ysgrifennu cwestiynau.

Adolygu!

Gellid gwahodd siaradwr gwadd i'ch canolfan neu ar-lein i drafod y ffactorau a allai gyfrannu at berygl y caiff unigolion eu cam-drin a'u hesgeuluso. Gallai'r dysgwyr ysgrifennu cwestiynau yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd. Os na fydd siaradwr gwadd ar gael, gallai'r dysgwyr ddod o hyd i sefydliadau dibynadwy ac ysgrifennu llythyr atyn nhw yn gofyn rhai cwestiynau am y ffactorau a allai gyfrannu at berygl y caiff unigolion eu cam-drin/esgeuluso.

[How to write a formal letter - BBC Bitesize](#) (cyfrwng Saesneg)

4. Cwblhewch adnodd CBAC (astudiaeth achos Bronwen).

Adolygu!

Darllenwch astudiaeth achos Bronwen ac atebwch y cwestiwn canlynol.

“Gan ddefnyddio astudiaeth achos Bronwen, esboniwch ddau ffactor a allai gyfrannu at berygl y caiff Bronwen ei cham-drin neu ei hesgeuluso [4 marc]. *Mae gennych tua 4-6 munud i gwblhau'r cwestiwn hwn.*

Mae Bronwen yn 57 oed ac mae ei gallu i symud yn gyfyngedig iawn, mae ganddi namau gwybyddol ac mae ei merch Alex yn gofalu amdani. Mae Alex yn 16 oed ac yn paratoi ar gyfer ei harholiadau TGAU. Mae Bronwen yn dibynnu ar Alex o ran ei hylendid personol/meddyginiaeth.

**AWGRYMIADAU
ARHOLIAD**

Esboniwch – rhoi manylion a rhesymau dros sut a pham mae rhywbeth fel y mae. Felly, er enghraifft, nodi'r ffactorau a allai gyfrannu at berygl y caiff Bronwen ei cham-drin a'i hesgeuluso, wedyn esbonio'r ffactor.

Esboniwch **ddau** ffactor a allai gyfrannu at berygl y caiff Bronwen ei cham-drin neu ei hesgeuluso.

[4 marc]

1.
.....
.....
2.
.....
.....

Ar ôl cwblhau eich ateb, gallwch hunanasesu a gofyn i un o'ch cyfoedion asesu eich gwaith gan ddefnyddio'r cynllun marcio canlynol.

1 marc am *nodi ffactor a allai gyfrannu at berygl y caiff Bronwen ei cham-drin neu ei hesgeuluso.*

1 marc am *esbonio ffactor sy'n cyfrannu at berygl y caiff Bronwen ei cham-drin neu ei hesgeuluso.*

Hunanasesiad	Asesiad gan gyfoedion
1.	
2.	
Gradd gyffredinol: /4 marc.	

Marciwch yr ateb canlynol gan ddefnyddio'r anodiadau canlynol:

Tanlinellwch y ffactor a allai gyfrannu at fwy o berygl y caiff Bronwen ei cham-drin/ei hesgeuluso.

1 marc am nodi ffactor a allai gyfrannu at berygl y caiff Bronwen ei cham-drin neu ei hesgeuluso.

1 marc am esbonio ffactor sy'n cyfrannu at berygl y caiff Bronwen ei cham-drin neu ei hesgeuluso. Mae'r dysgwr wedi ymhelaethu ar yr hyn a nodwyd ac wedi rhoi rhesymau clir pam y byddai Bronwen yn wynebu mwy o berygl o gael ei cham-drin/esgeuluso.

Ateb yr ymgeisydd:

1. Mae Alex yn 16 oed, ac mae hynny'n golygu dydy hi ddim yn oedolyn yn gyfreithiol; byddai Alex yn sefyll TGAU sy'n llawer o bwysau. Efallai y bydd Alex yn anghofio sawl gwaith i helpu ei mam gyda'i meddyginiaeth ac oherwydd nam gwybyddol ei mam efallai fydd hi ddim yn ymwybodol ydy hi wedi cael ei meddyginiaeth ai peidio.
2. Gall Alex ei chael hi'n anodd bod yn drefnus, e.e. diffyg cofnodi gwybodaeth. Gallai hyn o bosibl effeithio ar iechyd ei mam, cymryd gormod neu ddim digon o feddyginiaeth. Fyddai ei mam chwaith ddim yn cael ei hamddiffyn, fyddai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddim yn arolygu Alex.

Sylwadau'r uwch arholwr:

1. Mae Alex yn 16 oed, ac mae hynny'n golygu dydy hi ddim yn oedolyn yn gyfreithiol; Byddai Alex yn sefyll TGAU sy'n **llawer o bwysau**, efallai y bydd Alex yn anghofio sawl gwaith i helpu ei mam gyda'i meddyginiaeth ac oherwydd nam gwybyddol ei mam efallai fydd hi ddim yn ymwybodol ydy hi wedi cael ei meddyginiaeth ai peidio.
2. Gall Alex ei chael hi'n anodd **bod yn drefnus, e.e. diffyg cofnodi gwybodaeth**. Gallai hyn o bosibl effeithio ar iechyd ei mam, cymryd gormod neu ddim digon o feddyginiaeth. Fyddai ei mam chwaith ddim yn cael ei hamddiffyn, fyddai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddim yn arolygu Alex.

Pwyntiau'r uwch arholwr

Ffactor cyntaf

Mae Alex o dan gryn bwysau gan ei bod yn sefyll ei harholiadau TGAU ac felly mae'n bosibl y bydd yn anghofio helpu Bronwen â'i meddyginiaeth. Esboniad pellach drwy nodi pam bod Bronwen yn wynebu mwy o berygl, e.e. efallai na fydd Bronwen yn cofio a yw hi wedi cael ei meddyginiaeth ai peidio oherwydd ei nam gwybyddol.

Ail ffactor

Gall Alex ei chael hi'n anodd bod yn drefnus, mae hyn yn gysylltiedig â diffyg hyfforddiant a gaiff ei atgyfnerthu gan y pwynt y gall Bronwen wynebu mwy o berygl gan na fydd Alex o bosibl yn cael ei monitro.

Sylwadau'r uwch arholwr:

- *Byddai wedi bod yn arfer da cyfeirio'n ôl at Bronwen. Hefyd, roedd y ddau bwynt cyntaf yn debyg, e.e. meddyginiaeth.*
- *Ymhlith y pwyntiau eraill y gellid bod wedi'u hystyried yw oherwydd bod Bronwen yn dibynnu ar ei merch Alex am ofal/cymorth, gall fod yn amharod i roi gwybod am unrhyw achos posibl o gam-drin neu esgeulustod gan y bydd o bosibl yn teimlo'n ofnus gan na fydd yn cael gofal ac y bydd yn poeni y bydd Alex yn mynd i drafferthion.*
- *Gallai namau gwybyddol Bronwen hefyd olygu na fydd yn gallu rhoi gwybod am unrhyw achos posibl o gam-drin neu na fydd yn ymwybodol ei fod yn digwydd – gallai hyn fod yn gysylltiedig â cham-drin ariannol – er enghraifft, mae'n bosibl na fydd Bronwen yn gallu gadael y tŷ heb gymorth oherwydd pryderon symudedd ac felly efallai na fydd yn gallu gofyn am wasanaethau bancio heb gymorth, felly mae'n debygol mai Alex sy'n rheoli gwybodaeth ariannol Bronwen. Hefyd, oherwydd ei namau gwybyddol, mae'n bosibl hefyd na fydd Bronwen yn gallu deall arian a chyllid a allai olygu y bydd yn agored i niwed o ran sgamiau ac o ran pobl eraill yn dylanwadu arni. Mae'n bosibl hefyd na fydd Alex yn ymwybodol o gam-drin ariannol gan ei bod yn teimlo dan bwysau ac o ganlyniad i'w hoedran.*
- *Gall Bronwen hefyd fod wedi'u hallgáu'n gymdeithasol gan ddibynnu'n llwyr ar Alex o ganlyniad, na fydd o bosibl yn ymwybodol o'r rhwydweithiau cymorth sydd ar gael i Bronwen a sut y gallen nhw gael cymorth.*
- *Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.*

**AWGRYMIADAU
ARHOLIAD**

- *Un pwynt pwysig i'w ystyried – os gofynnwyd i'r dysgwr drafod neu ystyried ffactorau sy'n cyfrannu at berygl y caiff Bronwen ei cham-drin a'i hesgeuluso, byddai disgwyl i'r dysgwr ychwanegu mwy o fanylion a byddai disgwyl iddo ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl – felly amrywiaeth o ffactorau a allai gyfrannu at berygl y caiff Bronwen ei cham-drin/esgeuluso mewn sawl gwahanol ffordd – felly e.e. o leiaf 3-4. Byddai'n ddefnyddiol rhoi'r geiriau gorchymyn ar gyfer asesiad i'r dysgwyr, mae rhestr i'w gweld ar dudalennau 12-14 y [Canllawiau Addysgu](#).*

5. A4 Nodiadau adolygu byr ar ffactorau a allai gyfrannu at berygl y caiff unigolion eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Gall dysgwyr naill ai wneud eu nodiadau adolygu eu hunain, neu gallen nhw ddylunio poster academaidd a chwblhau cynhadledd ddsbarth. Byddai hyn yn gyfle da i'r dysgwyr asesu eu cyfoedion a rhannu syniadau am ffactorau sy'n cyfrannu at berygl y caiff unigolion eu cam-drin a'u hesgeuluso.

[Sut i wneud poster academaidd yn powerpoint - YouTube](#) - dolen ddefnyddiol sy'n dangos i ddysgwyr sut i wneud poster academaidd yn Powerpoint.

Gwerslyfrau defnyddiol

Rasheed, E, Hetherington ac Irvine, (2010) *Health and Social Care – ISBN 978-1-444-11552-9 - Tudalennau 236-244 (2 bennod, pennod 1, sy'n canolbwyntio ar fathau a dangosyddion cam-drin a phennod 2, sy'n canolbwyntio ar ddeall ffactorau a all arwain at sefyllfaoedd camdriniol).*

Peteiro, (2018) Diploma in Care – gwerslyfr City and Guilds – ISBN 978-1-5104-2911-6 - tudalen 162 – 164 – *sy'n disgrifio ffactorau a allai gyfrannu at berygl y bydd unigolyn yn fwy agored i gael ei gam-drin. *Noder mai gwerslyfr L2 yw hwn ond ei fod yn darparu rhywfaint o wybodaeth sylfaenol.*

5:2: Ffactorau a all effeithio ar hawliau unigolion sydd mewn perygl yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Ceir llyfryn gwaith

Adolygu!

Gallai'r dysgwyr gwblhau llyfryn gwaith sy'n cynnwys 8 gweithgaredd i'w cwblhau.

Gweithgareddau	Cwblhawyd
Gweithgaredd 1 – Gweithgaredd siart troi	
Gweithgaredd 2 – Rhestr termau/gwiriwr goleuadau traffig.	
Gweithgaredd 3 - Galluedd i ddeall gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniad (cwestiynau).	
Gweithgaredd 4 - Oedran/Deall hawliau a dealltwriaeth (Erthygl mewn cylchlythyr ysgol/coleg).	
Gweithgaredd 5 - Nodweddion personol unigolion sy'n cael gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau/Agweddau gweithwyr. (astudiaeth achos a chwestiynau).	
Gweithgaredd 6 - Cwestiynau diffyg eiriolaeth.	
Gweithgaredd 7 - Taflen waith argaeledd adnoddau.	
Gweithgaredd 8 – Ffilm Apostasy	

5:3: Gofynion deddfwriaeth, rheoleiddio a chodau ymddygiad/ymarfer ar gyfer diogelu ac amddiffyn unigolion sydd mewn perygl yng Nghymru a'r DU.


Deddf Plant 2004 – Mae Pob Plentyn yn Bwysig – trosolwg: <http://learning.nspcc.org.uk/child-protection-system/wales/>



**AWGRYMIADAU
ARHOLIAD**

Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o'r Ddeddf o ran sut mae'n diogelu ac yn amddiffyn unigolion sydd mewn perygl.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – trosolwg:
<https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb>



**AWGRYMIADAU
ARHOLIAD**

Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o'r Ddeddf o ran sut mae'n diogelu ac yn amddiffyn unigolion sydd mewn perygl.

Mae'r ddolen ganlynol yn ddefnyddiol iawn wrth ymchwilio i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

<https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/diogelu>

Adolygu!

Ceir rhestr termau o'r cysyniadau allweddol sy'n gysylltiedig â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Dylai dysgwyr ddefnyddio'r dull goleuadau traffig ar gyfer y cysyniadau hyn o ran gwybodaeth a dealltwriaeth a dylen nhw hefyd ychwanegu diffiniad pellach o ffynhonnell arall.

**AWGRYMIADAU
ARHOLIAD**

Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o'r Ddeddf o ran sut mae'n diogelu ac yn amddiffyn unigolion sydd mewn perygl.

DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU)

RHESTR TERMAU

Gair allweddol/Cysyniad Golau traffig Gwyrdd – gwybod a deall Oren – rwy'n credu fy mod yn gwybod ac yn deall Coch – dim syniad beth yw ystyr y cysyniad hwn	Diffiniad o'r Ddeddf neu'r cod ymarfer neu ganllawiau statudol	Diffiniad o ffynhonnell arall
---	---	--------------------------------------

Gofal Cymdeithasol Cymru - taflen diogelu - [Adnoddau-diogelu-pellach-pecyn-Diogelu-f.3.pdf](#) ([gofalcymdeithasol.cymru](#))

Tafleini

Hyfforddiant Sylfaenol Cymru Gyfan ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu **Fersiwn 3**

Mwy o adnoddau a gwybodaeth diogelu

Mae diogelu'n ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth neu esgeulustod ac addysgu'r bobl o'u cwrpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon.

Mae ystod eang o feysydd pwnc penodol ar y rhyngwyd i gefnogi pobl i ddysgu a deall ym maes gwaith gofal cymdeithasol ar bob lefel.

Mae **Rhan 7** Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynd i'r afael â diogelu, ac mae'r codau statudol ar gael ar yr Hyb Gwybodaeth a Dysgu. Mae'r Ddeddf yn atgynhysgu'r diogelwch sydd ar gael i blant ac yn cyflwyno mesurau newydd i ddiogelu oedolion mewn perygl.

[gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddfswb-codau](#)

Ceir rhestrri byrddau diogelu rhanbarthol ac asiantaethau partner yma:
[www.wcva-safeguarding.org.uk/Diogelu-rhanbarthol](#)

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn darparu canllawiau ar ddiogelu oedolion:
[www.olderpeoplewales.com/wv/adult_protection/adult_protection-in-wales/adult-protection-and-safeguarding.aspx](#)

Tudalennau Llywodraeth Cymru ar ddiogelu oedolion:
[gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/domesticabuse/publications/safeguarding-older-people-in-wales/?skip=1&lang=cy](#)

[gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/domesticabuse/marriage/?skip=1&lang=cy](#)

Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol:
[gov.wales/docs/dslg/publications/comm/safety/160317-national-training-framework-guidance-cy.pdf](#)

a deunyddiau hyfforddiant:
[livesafe.gov.wales/guidance-for-professionals/national-training-framework/?skip=1&lang=cy](#)

Priodas dan orfod, gwrth-gaethwasiaeth ac anffurfio organau cenhedlu benywod:
[livesafe.gov.wales/honour-based-violence-and-forced-marriage/?skip=1&lang=cy](#)

[www.gov.uk/guidance/forced-marriage](#)

[gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/anti-slavery/?skip=1&lang=cy](#)

[www.gov.uk/government/publications/multi-agency-statutory-guidance-on-female-genital-mutilation](#)

Trosolwg Cymru gydag adnoddau ar gyfer diogelu plant:
[gov.wales/topics/health/socialcare/safeguarding/?skip=1&lang=cy](#)

Diogelu plant rhag cam-fanteisio:
[gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/exploitation/?skip=1&lang=cy](#)

[www.north-wales.police.uk/wruen/index.html](#)

Byrddau diogelu plant:
[www.childrenwales.org.uk/in-your-area/safeguarding-children-boards](#)

Pob pwnc hyfforddi – cymorth i blant:
[www.plantynghymru.org.uk/hyfforddiant](#)

Gall Comisiynydd Plant Cymru gynorthwyo gyda materion diogelu plant:
[www.complancymru.org.uk](#)

Atal cam-drin plant yn rhywiol:
[www.stopitnow.org.uk/wales.htm](#)

Trosolwg o ddiogelu plant:
[www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-protection-system/wales/](#)

Mae gan yr Ymchwilad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol swyddfa yng Nghaerdydd bellach: [www.icsa.org.uk/cy](#)

Diogelu'r trydydd sector:
[www.wcva-safeguarding.org.uk/Hsfn](#)

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Adolygu!

1. Cwblhewch draethawd **500 gair** ar – Amlinellwch ac aseswch rôl y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wrth ddiogelu ac amddiffyn unigolion sydd mewn perygl.

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol – <http://bwrdddiogelu.cymru/>

Bwrdd Diogelu Plant [LSCB].

Dolen ddefnyddiol er mwyn cael gwybodaeth am eich bwrdd diogelu rhanbarthol lleol.

<http://bwrdddiogelu.cymru/dod-o-hyd-i'ch-bwrdd-rhanbarthol/>

Byrddau Diogelu Rhanbarthol (SAB)

Adolygu!

1. **Dyluniwch boster adolygu ar waith eich bwrdd diogelu lleol.** Nodwch yn glir sut mae eich bwrdd diogelu lleol yn amddiffyn unigolion sydd mewn perygl yn eich ardaloedd lleol.

Dewch o hyd i'ch bwrdd diogelu rhanbarthol: <http://bwrdddiogelu.cymru/dod-o-hyd-i'ch-bwrdd-rhanbarthol/>

Meddu ar rywfaint o ymwybyddiaeth o ddiogelu a gwybod beth, pryd a sut i roi gwybod am byrderon am blant ac oedolion sydd mewn perygl.

Adolygu!

1. **Gallai dysgwyr gwblhau'r llyfryn gwaith canlynol ar ddiogelu.**

AWIFHSC-Adran-6-llyfr-gwaith-Diogelu-Unigolion.pdf (gofalcymdeithasol.cymru)

Adolygu!

2. Dylai dysgwyr allu defnyddio'r ddogfen hon a dylid ei rhoi yn eu ffeiliau. Gallai dysgwyr drafod hyn mewn trafodaeth o dan arweiniad y tiwtor.

[Taflen-Crynodeb-honiadau-ac-amheuon-gweithgaredd-8-pecyn-diogelu-v.3.pdf](#)
([gofalcymdeithasol.cymru](#))

Honiadau ac amheuon – beth y dylid ei wneud a beth na ddylid ei wneud

Beth y dylid ei wneud

- Peidio â chynhyrfu / dangos sioc
- Gwrando'n astud ac yn dawel fach mewn ffordd amyneddgar yn hytrach na holi cwestiynau
- Os ydych chi'n gofyn am fwy o wybodaeth, defnyddiwch DED: 'dywedwch wrthyf fi...' 'eglwch wrthyf fi...' 'disgrifiwch...' dylai hyn sicrhau nad ydych yn gofyn cwestiynau arweiniol
- Eu hannog i siarad a gwrando arnynt
- Peidio â barnu
- Credu'r unigolyn a dweud wrtho y byddwch yn trin hyn o ddifrif
- Gadael i'r unigolion gofio'r hyn a ddigwyddodd a'i ddisgrifio yn ei amser ei hun
- Tawelu meddwl yr unigolyn drwy ddweud ei fod yn iawn i ddweud wrthyf ac nad yw ar fai
- Bod yn glir ynghylch eich sefyllfa chi a'r camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd fel dweud wrth yr unigolyn y bydd angen i chi drosglwyddo'r wybodaeth
- Nodi'r hyn a gaiff ei ddweud wrthyf yn ysgrifenedig, air am air os yn bosibl, gan gynnwys y dyddiad, amser, lleoliad a phwy sy'n bresennol cyn ei lofnodi a'i ddyddio
- Cadw unrhyw luniau ac ati y gallant eu tynnu
- Gwnewch yn siŵr i gadw unrhyw 'dystiolaeth', gan ei chadw hi'n ddiogel (e.e. dim golchi dilled na chael cawod) ac heb ei halogi
- Gofyn am eu caniatâd i'w gwybodaeth gael ei rhannu ag asiantaethau eraill os oes angen iddynt gael gwybod (fodd bynnag, ni allwch sicrhau cyfrinachedd)

- Cofnodi'r honiad cyn gynted â phosibl – hysbysu eich rheolwr llinell neu eich uwch reolwr, oni fyddwch yn amau eu bod ynghlwm wrth y digwyddiad dan sylw
- Rhoi manylion cyswllt i'r unigolyn fel y gall holi cwestiynau neu drafod materion (peidiwch â gadael i'r unigolyn ymdopi ar ei ben ei hun – mae angen iddo wybod gan bwy y gall gael gwybodaeth).

Beth na ddylid ei wneud

- Dangos sioc, ffeidd-dod neu anghrediniaeth
- Barnu
- Rhoi awgrymiadau iddynt neu ofyn cwestiynau manwl neu arweiniol
- Gwneud tybiaethau neu roi geiriau yn eu ceg.
- Addo na wnaiff ddigwydd eto.
- Torri ar eu traws neu eu stopio rhag cofio'r hyn a ddigwyddodd
- Gwneud iddynt ailadrodd yr hyn maent wedi'i ddweud
- Rhoi pwysau ar yr unigolyn i ddatgelu mwy
- Anwybyddu'r hyn a ddywedwyd wrthyf
- Addo cadw cyfrinachau neu wneud addewidion na allwch eu cyflawni
- Peidio â chysylltu â'r sawl a gaiff ei gyhuddo o gam-drin na'i wynebu
- Peidio â llygru na symud unrhyw dystiolaeth
- Archwilio'r unigolyn i gadarnhau ei anafiadau
- Hel eich pryderon o'ch meddwl neu boeni eich bod yn anghywir
- Trafod achosion unigol neu roi gwybodaeth am yr honiad i unrhyw un nad oes angen iddo wybod.

Adolygu!

3. Dylai dysgwyr hefyd wybod sut i gadw cofnodion da o ran diogelu ac amddiffyn unigolion sydd mewn perygl. Gallai dysgwyr gwblhau'r cwestiwn canlynol 'trafodwch bwysigrwydd cadw cofnodion da wrth ddiogelu unigolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin/esgeuluso'.

Dolenni defnyddiol

[Keeping children safe | NSPCC](#)

[Child protection records retention and storage guidelines \(nspcc.org.uk\)](#)

[Taflen-Gair-i-Gall-i-gadw-cofnodion-da-Gweithgaredd-9-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf \(gofalcymdeithasol.cymru\)](#)

Awgrymiadau defnyddiol ar gyfer cadw cofnodion da

- Gwybodaeth ffeithiol e.e. amseroedd, dyddiadau, enwau, tystion
- Pob cysylltiad h.y. wyneb yn wyneb, dros y ffôn, gohebiaeth
- Cyswllt ag asiantaethau eraill
- Penderfyniadau a wnaed
- Rhaid i'r hyn a gofnodir fod yn gofnod cywir a chlir o'r hyn a ddywedodd pobl yn eu geiriau eu hunain
- Cadw amcan
- Rhestru camau gweithredu yn y drefn gywir
- Dyddio a llofnodi eich cofnod
- Defnyddio beiro du os yn bosibl
- Llawysgrifen taclus
- Cadw copi er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol

Beth i'w gofnodi

- Beth a welwyd
- Beth a glywyd
- Beth a ddatgelwyd neu a ddywedwyd wrthydd
- Dyddiad y digwyddiad
- Amser y digwyddiad
- Pobl dan sylw
- Lleoliad
- Llofnodi a dyddio'r cofnod

Dylai gwybodaeth gael ei rhannu fel a ganlyn:

- Pan fo risg i unigolyn neu eraill
- Pan fo cyfraith wedi cael ei thorri

Sut i rannu gwybodaeth

- Gofynnwch am ganiatâd os oes modd neu fel arall dywedwch wrth yr unigolyn y bydd yn rhaid i chi ddweud wrth rywun
- Ar sail angen gwybod
- Rhannu diogel - dim ffacsys, negeseuon ar beiriannau ateb. Os na allwch gadarnhau pwy yw rhywun, nid dros y ffôn
- Cofnodi camau
- Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'r rheolwr

Deddf Diogelu Data

Mae'r gyfraith yn disgwyl i bob cofnod fod fel a ganlyn:

- Cywir, gonest a theg
- Cael ei gadw'n ddiogel
- Bod â rheswm dilys dros ei gadw
- Yn berthnasol i'w ddiben

Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

- Yn dod i rym o fis Mai 2018
- Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn cyflwyno dyletswydd ar bob sefydliad i roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) am fathau penodol o dorri amodau data ac, mewn rhai achosion, i unigolion.

Am fwy o wybodaeth, ewch i:

ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/ (Saesneg yn unig)

5:4: Dulliau o sicrhau hawliau unigolion sydd mewn perygl yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Adolygu!

Gall y dysgwyr gwblhau'r llyfryn gwaith sy'n cynnwys 10 o weithgareddau i'w cwblhau.

Gweithgaredd	Cwblhawyd
Gweithgaredd 1 – Crynodeb.	
Gweithgaredd 2 - Techneg cofio wrth adolygu (CARS)	
Gweithgaredd 3 – Llunio ffeithlen.	
Gweithgaredd 4 – Astudiaeth achos William.	
Gweithgaredd 5 – Astudiaeth achos Karen.	
Gweithgaredd 6 – Dulliau a all ddiogelu unigolion sydd mewn perygl – techneg cofio wrth adolygu (APPEALS)	
Gweithgaredd 7 - Deddfwriaeth ac ymyrryd yn gynnar/mesurau ataliol – adroddiad newyddion 2 funud o hyd	
Gweithgaredd 8 - Taflen i yrwyr tacsis ynghylch ymwybyddiaeth o wybodaeth am ddiogelu.	
Gweithgaredd 9 - Trafod y gyrrwr tacsî 'a achubodd ferch rhag pedoffilydd'.	
Gweithgaredd 10 - Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Iechyd Cymru (cyflwyniadau).	

AWGRYMIADAU ARHOLIAD

Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn ymwybodol o arferion a dulliau a all ddiogelu unigolion sydd mewn perygl. Acronymau Saesneg defnyddiol i'w cofio er mwyn cofio'r arferion a'r dulliau yw 'CARS' ac 'APPEAL'.

CARS ar gyfer arferion i ddiogelu unigolion.

C – Codes of practice put in place and adhered to and the consequences if they are not.

A – Allowing voice, choice, and control.

R – Rapport developed with individuals.

S – Safe environment provided.

APPEALS ar gyfer dulliau i ddiogelu unigolion.

A – Active participation

P – Principles of care.

P – Personalised care.

E – Empowerment.

A – Advocacy

L – Legislation followed.

S – Safeguarding training and information awareness.

Mae llywodraethu yn ddull allweddol arall o ran diogelu unigolion fel **arolygiadau** er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau o ansawdd da eu darparu ac er mwyn hybu canlyniadau da i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod yn rhaid i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o'r arferion/dulliau hyn mewn perthynas â sut maen nhw'n diogelu unigolion ac yn sicrhau eu hawliau.

5.5: Sut y gall gweithwyr unigol a'r gwasanaethau y gallan nhw eu darparu hybu cynhwysiant.

Iechyd y GIG yng Nghymru – Polisi Chwythu'r Chwiban:

[Iechyd yng Nghymru | Canlyniadau Chwilio - Polisi Codi Pryderon Cymru Gyfan \(Chwythu'r Chwiban\) \(wales.nhs.uk\)](http://www.wales.nhs.uk)

<http://www.wales.nhs.uk/document/240483/info/>